Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for:  Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mercher, 30 Medi 2020

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cynhelir Cyfarfod  Pwyllgor Trwyddedu o bell trwy Skype ar **Dydd Mawrth, 6 Hydref 2020** am **09:30**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 10
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 25/02/2020 a 14/07/2020

4. Penodi Is-Bwyllgorau Trwyddedu a Dirprwyo i Swyddogion — 11 - 12

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

**Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor ar ol i'r cyfarfod orffen. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.**

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| PA Davies | B Jones | A Hussain |
| DRW Lewis | G Thomas | TH Beedle |
| JE Lewis | AA Pucella | JR McCarthy |
| RM James | JE Williams | A Williams |
| RJ Collins | MJ Kearn | |

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 25 CHWEFROR 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RM James | RJ Collins | B Jones | AA Pucella |
| MJ Kearn | A Hussain | TH Beedle | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies, JE Lewis a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Will Lane | Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio |

38. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

39. CYMERADWYO COFNODION

CYTUNWYD: Bod cofnodion cyfarfod dyddiedig 13 Awst 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

40. COFRESTR GENEDLAETHOL DIDDYMU A GWRTHOD TRWYDDEDAU TACSI (NR3)

Cyflwynodd Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir adroddiad yn cynghori'r Pwyllgor am ymarferoldeb Cofrestr Genedlaethol Diddymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsi (NR3). Eglurodd fod y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) wedi comisiynu datblygu cofrestr genedlaethol o wrthodiadau a diddymiadau trwyddedau gyrwyr cerbydau hacni/llogi preifat i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai bod ymgeiswyr yn "gymwys a phriodol" i dderbyn trwydded.

Esboniodd Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod yr NR3 yn fecanwaith i alluogi awdurdodau trwyddedau i rannu manylion am unigolion sydd â'u trwyddedau gyrwyr cerbydau hacni/llogi preifat wedi'u diddymu neu gais am un wedi'i wrthod. Ar hyn o bryd, oni bai bod ymgeisydd yn datgelu hynny, doedd dim modd cyson gwybod oes oedd ymgeisydd wedi'i ddiddymu neu'i wrthod yn flaenorol gan Awdurdod Trwyddedu arall. Rhagwelwyd y byddai cofrestr NR3 yn darparu trefn gyson tuag at drwyddedu, gan gynyddu hyder yn addasrwydd ymgeiswyr a'r gobaith o gynnydd yn niogelwch y cyhoedd trwy gynorthwyo gwrthod ymgeiswyr anaddas i'r fasnach dacsis/llogi preifat.

Amlinellodd Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y newidiadau i'r weithdrefn bresennol. Pan dderbynnir cais am grant neu adnewyddu, fe fyddai swyddogion yn ymgymryd â chwiliad o gofrestr NR3. Os oedd canlyniad positif, fe wneid cais i'r awdurdod lleol a gyflwynodd y cofnod, am wybodaeth bellach er mwyn penderfynu ar addasrwydd yr ymgeisydd. Rhoddwyd manylion polisi drafft yn atodiad B yr adroddiad. Gan y byddai Cofrestr NR3 yn golygu prosesu data personol, fe fyddai gofyn dilyn egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data

2018. Pwysleisiodd na fyddai ymgeisydd yn cael ei wrthod yn awtomatig oherwydd bod cofnod ar Gofrestr NR3. Fe fyddai cofnod yn nodi fod gwybodaeth bellach i'w gael er mwyn caniatáu i'r pwyllgor ddod i benderfyniad ar b'un ai a ydy ymgeisydd yn "gymwys a phriodol" i dderbyn trwydded ai peidio.

Cododd aelod bryderon ynghylch y ffaith fod Cofrestr NR3 yn cynnwys Cymru yn unig a bod gan nifer o yrwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr gofrestriad deuol gydag ardaloedd eraill y tu allan i Gymru. Ateb Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir oedd bod Cofrestr NR3 yn cynnwys Cymru a Lloegr ond ei fod yn wirfoddol ar hyn o bryd. Y gobaith oedd y byddai canllawiau rheoliadol drafft newydd yn datgan y dylai pob awdurdod lleol yn Lloegr a Chymru'n mabwysiadu NR3.

Gofynnodd aelod pa drefniadau oedd mewn lle i wirio ymgeiswyr o du allan i'r DU. Eglurodd Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bod gwiriadau safonol yn eu lle ynghylch cofnodion troseddol, yr hawl i weithio a'r broses fewnfudo.

Gofynnodd aelod beth fyddai'n digwydd petai cais yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio gwybodaeth person arall. Atebodd Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod swyddogion yn gofyn am wybodaeth pasbort a gwiriadau eraill er mwyn cadarnhau pwy ydy'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Pwyllgor Trwyddedu'n mabwysiadu:

a) defnydd y gofrestr NR3 a'r

b) Polisi NR3 a fanylir yn Atodiad B ar unwaith.

41. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 09:50

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA SKYPE DYDD MAWRTH, 14 GORFFENNAF 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | JE Lewis | RM James | RJ Collins |
| AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn | A Hussain |
| TH Beedle | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

B Jones a/ac G Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Sharon Jones | Cynorthwy-ydd Trwyddedu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

42. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

43. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd llogi preifat.

Gwnaed y cais gan Stacey Jones a Christopher Jones o Ben-y-bont ar Ogwr i drwyddedu Mercedes E220d â’r rhif cofrestru cerbyd KJ17 FHW fel cerbyd llogi preifat i gludo 4 person.

Mae'r cerbyd yn ail law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gan y DVLA ar 7 Mehefin 2017.

Ni ellir cynnwys y cais o fewn y Polisi Cerbydau Llogi Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu oherwydd oedran y cerbyd a chanllawiau’r polisi. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn ychwaith. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer 6 Mawrth 2019 pan gofnodwyd 24923 milltir ar y cloc, ac ar gyfer 14 Hydref 2019 pan nodwyd 39912 milltir.

Ar 2 Gorffennaf 2020 archwiliwyd y cerbyd gan Swyddog Gorfodi Trwyddedu a chanfuwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Ceir ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A a ffotograffau o'r cerbyd yn Atodiad B.

Gadawodd y Pwyllgor i ystyried y cais ymhellach ac, wedi iddynt ddychwelyd, cafwyd:

PENDERFYNIAD: Ystyriodd y Pwyllgor y cais i gofrestru cerbyd KJ17 FHW fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Aelodau na ellid cynnwys y cerbyd o fewn darpariaeth 2.1 y Polisi Trwyddedu, oherwydd ei oed a'r milltiroedd y mae wedi'i yrru.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 (o'r polisi), sef os yw'r cerbyd o ansawdd eithriadol y tu mewn a'r tu allan a bod y safonau diogelwch yn eithriadol.

Am y rhesymau hyn, rhoddodd y Pwyllgor y drwydded.

44. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd llogi preifat.

Gwnaed y cais gan G & S Travel Limited o Fro Ogwr i drwyddedu Mercedes Vito â'r rhif cofrestru cerbyd KJ18 HHZ fel cerbyd llogi preifat i gludo 7 person.

Mae'r cerbyd yn ail law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gan y DVLA ar 22 Mehefin 2018.

Ni ellir cynnwys y cais o fewn y Polisi Cerbydau Llogi Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu oherwydd canllawiau polisi oedran. Nid yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer 17 Mawrth 2020 pan gofnodwyd 20074 milltir ar y cloc.

Ar 30 Mehefin 2020, archwiliodd Swyddog Gorfodi Trwyddedu y cerbyd a chanfuwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Ceir ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A a ffotograffau o'r cerbyd yn Atodiad B.

Gadawodd y Pwyllgor i ystyried y cais ymhellach ac, wedi iddynt ddychwelyd, cafwyd:

PENDERFYNIAD: Ystyriodd y Pwyllgor y cais i gofrestru cerbyd KJ18 HHZ fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Aelodau na ellid cynnwys y cerbyd o fewn darpariaeth 2.1 y Polisi Trwyddedu, oherwydd ei oed a'r milltiroedd y mae wedi'i yrru.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 (o'r polisi), sef os yw'r cerbyd o ansawdd eithriadol y tu mewn a'r tu allan a bod y safonau diogelwch yn eithriadol.

Am y rhesymau hyn, rhoddodd y Pwyllgor y drwydded.

45. POLISI AR BENNU ADDASRWYDD SGRINIAU AMDDIFFYNNOL MEWN CERBTDAU HACNI A CHERBYDAU LLOGI PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad ai ddiben oedd peri i Aelodau ystyried mabwysiadu a chyhoeddi polisi ar "Sgriniau Dros Dro mewn Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat" yn sgil ymgynghoriad â'r diwydiant.

Dywedodd fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn ceisiadau gan y diwydiant yn annog yr Adran Drwyddedu i gyflwyno mwy o fesurau diogelwch mewn ceir i warchod rhag Covid-19, gan gynnwys defnyddio sgriniau diogelwch. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae gan yrwyr tacsi un o'r cyfraddau marwolaethau uchaf o gymharu â galwedigaethau eraill y DU.

Mae dogfen bolisi ddrafft wedi'i chynhyrchu, ac wedi'i chymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, sy'n manylu ar y gofynion a'r weithdrefn gymeradwyo ar gyfer defnyddio sgriniau mewn cerbydau. Amgaewyd copi o'r polisi drafft hwn yn Atodiad A i'r adroddiad.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar 6 Gorffennaf 2020, cadarnhawyd cyfanswm o 554 achos Covid-19 o fewn poblogaeth leol o 147,049; mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 15,890 o achosion wedi’u cadarnhau yng Nghymru. Ar 26 Mehefin, bu 90 o farwolaethau cysylltiedig â Covid ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'n ddealladwy y bydd deiliaid trwydded yn awyddus i gyflwyno mesurau i’w hamddiffyn rhag lledaeniad Covid-19. Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio ar ddiogelwch na chywirdeb y cerbyd.

Gyda'r cyfyngiadau'n dechrau cael eu llacio, mae mwy a mwy o yrwyr tacsi a cherbydau llogi preifat yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith, ac am geisio sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau i amddiffyn eu hunain yn ogystal â'u teithwyr. Sgriniau dros dro mewn cerbydau sy’n cael eu trafod fwyaf o ran ymholiadau gan y fasnach, yn y gobaith y gallai gwahanu corfforol rhwng gyrwyr a theithwyr leihau trosglwyddiad Covid-19.

Mewn ymateb i'r ceisiadau gan y diwydiant i osod sgriniau mewn cerbydau trwyddedig, sefydlodd y Panel Arbenigwyr Trwyddedu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r 22 o Adrannau Trwyddedu awdurdodau lleol yng Nghymru, weithgor er mwyn cynhyrchu canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu eu mabwysiadu, gyda'r bwriad o gysoni'r dull o gymeradwyo gosodiadau sgrin yng Nghymru.

Eglurodd fod gwahanol fathau o sgriniau ar y farchnad, gan gynnwys sgriniau plastig hyblyg sy'n lapio o amgylch y gyrrwr ac y gellir eu tynnu'n hawdd, a sgriniau plastig polycarbonad anhyblyg a osodir ar y seddi neu drim mewnol y cerbyd gyda sgriwiau, bolltau, a rhybedion.

Bwriad y polisi arfaethedig yw darparu egwyddorion arweiniol ar sut y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymdrin â cheisiadau o'r fath gan ddeiliaid trwyddedau sy'n dymuno gosod sgrin yn eu cerbyd. Roedd nifer o bryderon diogelwch yn gysylltiedig â'r sgriniau, er enghraifft y potensial i ymyrryd â nodweddion gwreiddiol y cerbyd, megis y bagiau awyr ochr neu symudiad sedd y gyrrwr, a bwriad y polisi yw nodi gofynion penodol i fodloni'r pryderon hyn.

Mae paragraff 4.7 yr adroddiad yn amlinellu gofynion y polisi.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori â'r diwydiant ar y polisi arfaethedig, gan gynnwys nifer o weithredwyr trwyddedig yn ogystal â gyrwyr.

Derbyniwyd un ymateb mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Daeth yr ymateb hwn gan weithredwr trwyddedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Valley Cars, a ddywedodd na fyddent yn gosod sgriniau yn eu cerbydau.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion eraill.

Nododd Aelod nad oedd Valley Cars yn bwriadu gosod unrhyw sgriniau amddiffynnol o'r fath, a gofynnodd a allai'r Awdurdod Trwyddedu orfodi'r defnydd o sgriniau mewn tacsis.

Atebodd y Swyddog Polisi Trwyddedu nad oedd unrhyw dystiolaeth gadarn ar hyn o bryd fod gosod sgriniau yn lleihau lledaeniad y salwch, ac o ystyried hyn byddai'n anghymesur i'r Awdurdod Trwyddedu ei gwneud yn orfodol i bob gyrrwr/gweithredwr tacsi osod sgriniau yn eu cerbydau.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw gyfarwyddeb gadarn wedi ei roi i yrwyr tacsi wisgo masgiau wrth eu gwaith, ac i fynnu bod teithwyr yn gwisgo masgiau o'r fath hefyd.

Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Trwyddedu fod hyn yn rhan o becyn o fesurau a oedd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd. Ychwanegodd fod cynnig yng Nghymru i'w gwneud yn orfodol i ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus wisgo masgiau o 27 Gorffennaf ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd pe bai unrhyw sgriniau'n cael eu cyflwyno mewn tacsis, yna byddai'n rhaid iddynt fodloni'r safonau diogelwch gofynnol a gyflwynwyd drwy unrhyw reoliadau a chanllawiau polisi a gyflwynwyd o ganlyniad i Covid 19.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Fod y Pwyllgor:

(i) Yn mabwysiadu'r defnydd o Sgriniau Dros Dro mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(ii) Yn cytuno y dylid dirprwyo'r penderfyniad i gymeradwyo sgrin ar gyfer Tacsis neu Gerbydau Hurio Preifat i'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD, a Rheoleiddiol.

46. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15

This page is intentionally left blank

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO LICENSING COMMITTEE**

**6 OCTOBER 2020**

**REPORT OF THE CHIEF OFFICER – LEGAL, HR AND REGULATORY SERVICES**

**APPOINTMENT OF LICENSING SUB- COMMITTEE(S) AND DELEGATIONS TO OFFICERS**

**1. Purpose of Report.**

1.1 To propose the membership of the Licensing Committee Sub-Committees following the Annual Meeting of Council 30 September 2020.

**2. Connection to Corporate Well-being Objectives/Other Corporate Priorities**

2.1 The proposals are required to effectively discharge the functions of the authority in respect of general licensing applications, the majority of which relate to taxi licensing. The range of functions is set out within the Council's Constitution in Part 3 Responsibility for Functions relating to the Licensing Committee and Sub-Committees. These functions include taxi licensing, street trading, and other general licensing regimes as required. A separate report is being submitted in respect of Licensing Act 2003 and Gambling Act 2005 functions.

**3. Background.**

3.1 At their meeting on 30 September 2020 Council received a report establishing the membership of the Licensing Act 2003 Committee and the Licensing Committee.

**4. Current situation / Proposal.**

4.1 It is proposed that the Licensing Committee continue with the existing arrangements and approve the formation of two panels sitting on a rota basis each consisting of seven Members of the Licensing Committee and chaired by the Chairperson and Vice Chairperson of the Licensing Committee where possible.

4.2 In the event that the Chair or Vice Chair are not able to attend their respective sub-committee meeting, a chair will be elected from those in attendance.

**5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules.**

5.1 The report content has no direct effect upon the Policy Framework and Procedure Rules.

**6. Equality Impact Assessment**

6.1 There are no equality implications arising from this report.

**7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 implications**

7.1 The well-being goals identified in the Act were considered in the preparation of this report. It is considered that there will be no significant or unacceptable impacts upon the achievement of well-being goals/objectives as a result of this report.

**8. Financial Implications.**

8.1 There are no financial implications arising from the proposals.

**9. Recommendations**

9.1 The Committee is recommended to:

9.2 Approve the formation of two panels sitting on a rota basis each consisting of seven Members of the Licensing Committee and chaired by the Chairperson and Vice Chairperson of the Licensing Committee where possible. In the event that the Chair or Vice Chair are not able to attend their respective subcommittee meeting, a chair will be elected from those in attendance. These Licensing Sub-Committees will undertake licensing functions, including taxi licensing and street trading as set out in the Council's Constitution.

**Kelly Watson**
**CHIEF OFFICER – LEGAL, HR AND REGULATORY SERVICES**

**30 September 2020**

**Contact Officer: Yvonne Witchell**

**Team Manager Licensing Bridgend and Vale**

**Telephone: (01656) 643643**

**E-mail: Yvonne.Witchell@bridgend.gov.uk**

**Postal Address Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB**

**Background documents**
Report to Council
Council Constitution